Hawdd ei Ddeall

# Cronfa Goffa Thomas John Jones

## Cyllid i bobl hyfforddi mewn peirianneg



Mae'r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan **Sefydliad Cymunedol Cymru**. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o '**Cronfa Goffa Thomas John Jones**'.

**2025**

# Am y llyfryn yma


Hawdd ei Ddeall
Sefydliad Cymunedol Cymru
Cronfa Goffa Thomas John Jones
Cyllid i bobl hyfforddi mewn peirianneg
Mae'r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan **Sefydliad Cymunedol Cymru**. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o '**Cronfa Goffa Thomas John Jones**'.
2025

Mae'r canllaw hwn am **Gronfa Goffa Thomas John Jones**.

Lle mae'r ddogfen yn dweud **Ni**, mae hyn yn meddwl **Sefydliad Cymunedol Cymru**. Am fwy o wybodaeth neu gefnogaeth cysylltwch â:




**Gwefan:** communityfoundationwales.org.uk/cy/



**Ebost:** grants@communityfoundationwales.org.uk



**Ffôn:** 02920 379580

Mae'r ddogfen yma wedi cael ei gwneud yn hawdd ei deall gan **Hawdd ei Ddeall Cymru** gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthym ni beth yw eich barn am y fersiwn hawdd ei ddeall hon, cliciwch yma.

Rhif trwydded Photosymbols 403527247

# Cynnwys


**Am y grofna yma ........................................................................ 4**

**Faint rydych chi'n gallu gwneud cais amdano? .......................... 5**

**Pwy sy'n gallu gwneud cais?............................................................ 6**

**Sut i wneud cais ......................................................................... 7**

# Am y grofna yma



Mae’r gronfa yma ar gyfer pobl sydd eisiau hyfforddi i weithio ym maes peirianneg.



Mae peirianneg yn meddwl dylunio, profi ac adeiladu pethau. Er enghraifft, peiriannau a phethau eraill.



Mae’n gallu cefnogi pobl o’r ardaloedd yma:

- De Powys sy’n cynnwys ardaloedd Penderyn sydd bellach yn RhCT.
- Cefn-coed-y-cymmer, Llwyn-onn, Pontsticill, Vaynor a Trefechan nawr ym Merthyr Tudful.
- Princetown a Llechryd nawr  yng Nghaerffili.
- Clydach, Llanellyi a Gilwern sydd nawr yn Sir Fynwy.
- Blaenau Gwent.

# Faint rydych chi'n gallu gwneud cais amdano?



Mae unigolion sy'n astudio peirianneg neu gwrs sy'n cynnwys peirianneg yn gallu cael hyd at £3000 y flwyddyn.




Rhaid defnyddio'r arian ar gyfer y mathau yma o gyrsiau:

- Lefel israddedig
- Lefel ôl-raddedig
- Diploma Cenedlaethol Uwch (HND)
- Doethur mewn Athroniaeth (PhD)

# Pwy sy'n gallu gwneud cais?



- Myfyrwyr sy'n byw yn un o'r ardaloedd sydd wedi'u rhestru ar **dudalen 4**. Neu bobl sydd wedi mynd i'r ysgol yn yr ardaloedd hynny.



- Rhaid i fyfyrwyr fod yn astudio peirianneg.

# Sut i wneud cais




Mae'n rhaid i chi lenwi ffurflen gais ar-lein. Mae hwn ar ein gwefan: communityfoundationwales.org.uk/cy/grants/cronfa-goffa-thomas-john-jones

**Pethau pwysig i'w gwybod:**



- Os ydych chi'n gwneud cais am gwrs lefel ôl-raddedig, mae'n rhaid i chi fod â gradd yn barod. Mae'n rhaid i chi fod wedi cael dosbarth cyntaf. Neu, anrhydedd ail ddosbarth uchaf.



- Rhaid i chi roi gwybod i ni am unrhyw newidiadau sydd yn gallu effeithio ar eich astudiaeth. Er enghraifft, iechyd neu newid cwrs.




- Rydyn ni'n fwy tebygol o roi cyllid i bobl sy'n dangos sut maen nhw'n cwrdd â nodau'r gronfa.



- Rhaid i'r person ddangos angen clir am gefnogaeth y grant.




- Fydd grantiau ddim yn cael eu rhoi ar gyfer cyrsiau sydd wedi digwydd yn barod.